



MAE CYMUNED wedi lansio prosiect newydd i ddod â llyfrgelloedd achlysurol i dref arfordirol.

Y cyntaf o'i fath yng Ngogledd Cymru, bydd y prosiect llyfrgelloedd bach yn lansio ar Ddiwrnod y Llyfr, gan annog pobl i ddarllen, rhannu a chyfnewid llyfrau mewn gwahanol leoliadau ledled y Rhyl.

Wedi ei ariannu gan Gyngor Tref y Rhyl, bydd blychau llyfrau mewn gwahanol leoliadau ledled y dref gyda phob un yn cynnwys nifer o lyfrau wedi eu hanelu at bob oedran a gallu.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Win Mullen-James: "Mae'r syniad y tu ôl i'r blychau llyfrau yn un syml iawn – rydym eisiau rhoi cyfle i bobl gymryd pleser mewn llyfr, rhoi cyfle i deuluoedd ddarllen gyda'i gilydd, ac annog pobl i rannu a siarad am straeon y maent wedi eu mwynhau.

"Mae hwn yn estyniad o lyfrgell lwyddiannus y dref, ac yn ein gweld yn gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd y gymuned, i helpu i roi hwb i lythrennedd a chael pobl i fwynhau cael llyfr am ddim."

Mae Llyfrgell y Rhyl wedi ymuno â'r prosiect, gan sicrhau 160 copi o lyfr newydd Nick Hornby, *Juliet*, *Naked*, stori am ail gyfle wedi ei hanelu at oedolion. Mae nifer o lyfrau plant hefyd wedi eu cyfrannu gan y llyfrgell a byddant yn cael eu cynnwys yn y blychau.

Mwy/...



-2-

Dywedodd Llyfrgellydd y Rhyl Deborah Owen: “Roedd y syniad o bobl yn dod ar draws llyfr mewn man anarferol yn apelio’n fawr atom. Bydd cael hyd i’r llyfrgelloedd bach a’r llyfrau yn gymaint o bleser â’u darllen.

“Mae hwn yn brosiect hyfryd, a gobeithiwn y bydd yn denu pobl o bob oedran i ddechrau darllen, mynd yn ôl at ddarllen neu wella eu sgiliau llythrennedd. Bydd pobl sydd wedi gorffen eu llyfr eu hunain ac eisiau ei rannu gydag eraill yn medru ei adael yn y blwch neu ddod ag o atom ni. Gobeithiwn y bydd y prosiect hwn hefyd yn annog pobl i ymuno â llyfrgell y Rhyl a phori trwy ein casgliad o lyfrau.”

Adeiladwyd y llyfrgelloedd bach gan Men’s Shed y Rhyl, yn Abbey Street a’u dylunio gan Grŵp Celfyddydau St Mary’s yn 4 The Community ar Ffordd Wellington.

“Mae’r llyfrgelloedd bach wedi eu hadeiladu gan y gymuned, ar gyfer y gymuned. Mae’r prosiect hwn wedi ein galluogi i weithio gyda Men’s Shed, y llyfrgell, a’r manau lle gosodir y blychau.

“Pwrpas Diwrnod y Llyfr yw annog a meithrin cariad tuag at ddarllen ac mae pobl y Rhyl wedi gweithio gyda’i gilydd i gyflawni hynny,” ychwanegodd y Cynghorydd Mullen-James.

Mae’r blychau llyfrau bach i’w canfod mewn pedwar lleoliad yn y Rhyl a dywedodd Clare Steel, sy’n rhedeg y grŵp celfyddyd a chreffft, bod aelodau’r grŵp yn gwbl gefnogol i’r syniad.

Ychwanegodd: “Mae Men’s Shed a’r clwb celfyddydau yn gweithio gydag oedolion ag anghenion amrywiol. Roedd hwn yn gyfle i wneud rhywbeth ar gyfer pobl y Rhyl ond hefyd yn gyfle i aelodau’r grŵp ddatblygu eu sgiliau a defnyddio eu creadigedd i wneud y blychau.

“Adeiladodd Men’s Shed y blychau, gan ddatblygu eu sgiliau gwaith coed a datrys problemau, ac roedd y grŵp celfyddyd yn medru ychwanegu at hyn trwy feddwl am ffyrdd o wneud y blychau’n drawiadol. Aeth y grŵp am liwiau traddodiadol glan y môr, ond gan hefyd ychwanegu thema blwch o gwmpas cynnig manwerthu’r dref. Mae gwybod y bydd ein grŵp yn helpu pobl eraill yn deimlad gwerth chweil.”

Mae’r blychau i’w gweld yn:

- Canolfan y Rhosyn Gwyn
- Swyddfeydd Cyngor Tref y Rhyl, Canolfan Gymunedol Wellington, Ffordd Wellington, y Rhyl
- Canolfan Groeso’r Rhyl, Rhodfa’r Gorllewin, y Rhyl
- Llyfrgell y Rhyl, Stryd yr Eglwys, y Rhyl

Diwedd

